

Cynllun Lle Arbennig

Grantiau rhwng £100,000 a £500,000

Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from

Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®



cronfa
dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

Cynnwys

Crynodeb o wybodaeth allweddol	4
Adran un – cyflwyniad	6
Adran dau – diben y Cynllun Lle Arbennig	8
Adran tri – cymhwysedd	10
Adran pedwar – yr hyn y byddwn yn ei ariannu	14
Adran pump – y gwahaniaeth rydym yn dymuno ei wneud	17
Adran chwech – sut i wneud cais	19
Adran saith – sut byddwn yn gwneud ein penderfyniad	23
Adran wyth – gwybodaeth arall ynglŷn â'ch cais	25

Ynglŷn â Chronfa Dreftadaeth y Loteri

Yr archaeoleg o dan ein traed, y parciau hanesyddol yr ydym yn dwli arnynt, atgofion gwerthfawr a bywyd gwyllt prin, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn defnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i helpu pobl ledled y DU i archwilio, mwynhau a diogelu'r dreftadaeth sy'n bwysig iddynt. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi buddsoddi dros £340 miliwn mewn mwy na 2,500 o brosiectau ledled Cymru.

Yn y canllawiau hyn, mae treftadaeth yn cynnwys y nifer o bethau gwahanol o'r gorffennol sy'n bwysig inni yr ydym am eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol, er enghraifft: adeiladau hanesyddol a thirweddau a ddyluniwyd; cynefinoedd, rhywogaethau, a geoamrywiaeth; manau a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â hanes diwydiannol, morwrol a thrafnidiaeth y DU; amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau; diwylliannau ac atgofion; a threftadaeth y gymuned. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn buddsoddi ym mhob rhan o dreftadaeth y DU ac yn anelu at wneud gwahaniaeth parhaus ar gyfer treftadaeth a phobl.

Am fwy o wybodaeth, ewch i cymraeg.hlf.org.uk

Crynodeb o wybodaeth allweddol

Beth yw canolbwynt y Cynllun Lle Arbennig?

Diben y Cynllun Lle Arbennig yw gosod treftadaeth a diwylliant wrth wraidd y weledigaeth leol ar gyfer rhwng 5 ac 8 o leoedd ledled Cymru, gan arwain at newid sylweddol o ran cyfrannu at dreftadaeth yn yr ardaloedd hynny, a'i hymgorffori fel rhan o gynlluniau'r ardaloedd ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn ariannu portffolio o brosiectau sy'n amrywio o ran maint, gan gwmpasu ystod eang o dreftadaeth a diwylliant. Mae hyn yn cynnwys yr amgylchedd adeiledig; amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau; diwylliant a thraddodiadau; tir a threftadaeth naturiol; a threftadaeth ddiwydiannol, morol a thrafnidiaeth.

Rydym yn argymhell bod prosiectau Lle Arbennig yn ystyried yr ystod lawn o asedau treftadaeth a diwylliannol, yn ogystal â'r cyd-destun cymdeithasol, gan gynnwys y Gymraeg, sy'n ffurfio gwahanolrwydd ardal y prosiect, ac yn mabwysiadu dull gwirioneddol gydweithredol o ran creu lleoedd. Bydd y Cynllun Lle Arbennig yn ariannu prosiectau mewn ardaloedd lle mae partneriaethau lleol cryf eisoes yn bodoli, ac yn helpu i greu partneriaethau newydd, sydd wedi ymrwymo i ymgorffori treftadaeth a diwylliant fel rhan greiddiol o gynlluniau, polisiau a strategaethau lleol – gan atgyfnerthu partneriaethau ar draws y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

Trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng sefydliadau treftadaeth, dinesig a chymunedol, a'r sector preifat, a thrwy gynnwys pobl, bydd prosiectau yn gwella'r rhan y mae treftadaeth a diwylliant yn ei chwarae o ran dyfodol pob lle sy'n cymryd rhan

yn y cynllun. Ymhen amser, bydd hyn yn arwain at fanteision cymdeithasol ac economaidd y gall treftadaeth a diwylliant eu cyflawni, gan gynnwys mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, gwell gwytnwch ar gyfer sefydliadau lleol, a thwf cynhwysol yn yr economi leol, ymhlith eraill.

Mae hwn yn gynllun peilot. Bydd yn ariannu gweithgareddau y gellir adeiladu arnynt yn y dyfodol, a gellir rhannu'r hyn a ddysgir o hynny gydag ardaloedd eraill. Gweler isod i gael rhagor o fanylion ynglŷn â'r hyn yr ydym yn disgwyl ei ariannu.

Mae'r canllaw hwn ar gyfer gweithredu'r Cynllun Lle Arbennig yng Nghymru. Mae fersiwn wahanol o'r cynllun hwn yn cael ei gynnal yn Lloegr a'r Alban, ac rydym yn disgwyl y bydd fersiwn arall yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Mae canllawiau gwahanol ar gyfer pob cenedl.

Crynodeb o wybodaeth allweddol

Pwy all wneud cais?

Partneriaethau a arweinir gan sefydliad dielw
Gweler isod (Adran tri) i gael rhagor o wybodaeth.

Pwy na all wneud cais?

Unigolion; sefydliadau unigol; partneriaethau a arweinir gan sefydliadau neu gwmnïau er elw/preifat.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb?

Canol dydd, 14 Awst 2017

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?

Canol dydd, 7 Rhagfyr 2017

Beth yw'r uchafswm y gellir gwneud cais amdano ym mhob cais?

Rhwng £100,000 a £500,000

Pryd byddwn ni'n gwneud ein penderfyniad?

Rydym yn bwriadu hysbysu ymgeiswyr ynglŷn â'n penderfyniad nid yn hwyrach na **31 Mawrth 2018**

Pryd y mae'n rhaid i'r gweithgaredd gael ei gynnal?

Nid yw'n bosibl i weithgareddau ddechrau yn gynharach nag **1 Ebrill 2018**. Mae'n rhaid i weithgareddau a ariennir ddod i ben nid yn hwyrach na **31 Mawrth 2021**. Gall gweithgareddau barhau dros unrhyw gyfnod **hyd at dair blynedd**.

Isafswm arian cyfatebol gan ffynonellau eraill

Isafswm cyfraniad o 10% o gostau llawn y prosiect – mae'n rhaid i hwn fod yn gyfraniad ariannol.

Er mwyn dangos sail eang o gefnogaeth i'r prosiect, byddem yn disgwyl i'r cyfraniad hwn gael ei dynnu o fwy nag un ffynhonnell/sefydliad o fewn y bartneriaeth. Ni fydd cyfraniadau mewn nwyddau yn gymwys fel arian cyfatebol.

Adran un – cyflwyniad

Croeso

Diolch am eich diddordeb yn y Cynllun Lle Arbennig, sy'n cael ei gyflwyno yng Nghymru gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ynglŷn â sut i wneud cais am arian, ac yn amlinellu'r hyn y byddwn yn ei ariannu.

Ynglŷn â'r Cynllun Lle Arbennig

Cynllun peilot yw'r Cynllun Lle Arbennig sy'n ceisio hybu mynediad at dreftadaeth a diwylliant, hyrwyddo cydraddoldeb, a gwella cyfleoedd bywyd ledled Cymru.

Bob blwyddyn, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn buddsoddi mewn ac yn galluogi prosiectau sy'n cael effeithiau cadarnhaol ar gyrhaeddiad addysgol, iechyd a llesiant, cynhwysiant, yr amgylchedd a chydlyniant cymunedol – gan greu swyddi, datblygu sgiliau a rhoi hwb i economïau lleol.

Fodd bynnag, mae gwireddu potensial llawn y buddsoddiad hwn yn dibynnu ar amrywiaeth eang o bartneriaid lleol yn meddu ar ddealltwriaeth o ran sut y mae'r nifer fathau o dreftadaeth a diwylliant yn gallu – ac yn aml yn ei wneud eisoes – cefnogi llwyddiant amcanion strategol yr ardal.

Mae angen i'r ddealltwriaeth hon gael ei chynnwys fel rhan o benderfyniadau cynllunio a buddsoddi o'r cychwyn cyntaf.

Ein huchelgais ar gyfer y rhaglen hon yw cefnogi ardaloedd lleol i:

- **Ysbrydoli gweledigaeth ynglŷn â sut mae treftadaeth a diwylliant yn gallu newid eich lleoliad** – sut mae treftadaeth a diwylliant yn creu synnwyr o le, yn adeiladu cyfalaf cymdeithasol a naturiol, yn tyfu economïau lleol mewn modd cynhwysol i fynd i'r afael â thlodi, ac yn alinio â chynlluniau lleol ar gyfer addysg, gan wneud cymunedau ffyniannus, iach, amgylcheddol gynaliadwy a chydlynol; a sut y gallant ein helpu i feddwl am newid, drwy ddod â'n cymunedau, pobl a sefydliadau at ei gilydd.
- **Cysylltu treftadaeth a diwylliant gyda phartneriaid newydd i helpu lleoedd i newid er gwell** - sefydliadau treftadaeth a diwylliannol, pobl, arweinwyr dinesig, grwpiau cymunedol, elusennau, ysgolion, lleoliadau addysg a gwaith ieuencid, asiantaethau ac awdurdodau cyhoeddus, a busnesau, gan gynnwys busnesau newydd a mentrau bach a chanolig, yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio partneriaethau cryf a chynaliadwy.

Adran un – cyflwyniad

- **Cynnwys gweledigaeth ar gyfer treftadaeth a diwylliant yn rhan o'r uchelgeisiau ar gyfer eich lleoliad** – datblygu syniadau newydd er mwyn gwneud defnydd gwell o dreftadaeth a diwylliant yn y cynlluniau cymdeithasol, economaidd a gofodol sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ardal leol, gyda chefnogaeth gan y partneriaid perthnasol.
- **Adeiladu a rhannu dysgu** – datblygu syniadau newydd ar gyfer prosiectau treftadaeth a diwylliannol i dreialu gweithgarwch newydd a ffurfio partneriaethau newydd, a newid y lleoedd sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Lle Arbennig ac ysbrydoli gweithgareddau tebyg mewn rhannau eraill o Gymru.

Yn ogystal â darganfod ffyrdd newydd o weithio, rydym am weld partneriaethau lleol yn adeiladu Lle Arbennig mewn ardaloedd lle mae treftadaeth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol – **gweler adran pump**. Bydd angen i chi ddatblygu gweledigaeth glir o'r gwahaniaeth yr hoffech ei wneud i gymunedau yn eich ardal chi.

Adran dau – diben y Cynllun Lle Arbennig

Amcanion

Bydd y Cynllun Lle Arbennig yn galluogi sefydliadau treftadaeth a diwylliannol i wneud newid sylweddol o ran y ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd, a chyda sefydliadau mewn sectorau eraill, er mwyn i dreftadaeth a diwylliant gyfrannu mwy i ddiwallu amcanion cymdeithasol ac economaidd lleol.

Beth fydd y Cynllun Lle Arbennig yn ei wneud?

Bydd y Cynllun Lle Arbennig yn ariannu rhwng 5 ac 8 o leoedd ledled Cymru i gyflawni'r canlynol:

- Adeiladu ar bartneriaethau presennol gyda'r sectorau treftadaeth a diwylliannol er mwyn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad cymdeithasol ac economaidd.
- Adeiladu partneriaethau newydd i wireddu'r cyfraniad hwn ac ysgogi adnoddau yn y sector i gefnogi hynny.
- Datblygu partneriaethau rhwng y sector treftadaeth a mentrau sy'n seiliedig ar le sy'n gweithredu yng Nghymru er budd pawb fel bod cyfraniad y sector a'r potensial am ragor o

gydweithio yn y dyfodol yn cael eu cydnabod a'u cefnogi gan gynlluniau a strategaethau tymor hir ar gyfer yr ardal a chymunedau. Mae llawer o fentrau yng Nghymru sy'n seiliedig ar le, a dylai prosiectau weithio ar y cyd gyda mentrau presennol lle bo hynny'n berthnasol, [megis rhaglen Cyfuno](#) Llywodraeth Cymru a menter [CREU CYMUNEDAU CYFOES](#) Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) yn arwain at wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Bydd y cynllun yn galluogi lleoedd ledled Cymru i roi treftadaeth a diwylliant wrth wraidd gweledigaeth y dyfodol ar gyfer eu hardal.

Faint o gyllid sydd ar gael?

Gallwch wneud cais ar gyfer rhwng £100,000 a £500,000 i weithgaredd a fydd yn cael ei gyflawni dros gyfnod hyd at dair blynedd.

Mae'r broses o ymgeisio ond yn cynnwys un rownd, ond mae'n rhaid i chi gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb cyn cwblhau ffurflen gais. **Gweler tudalen 5 i gael y dyddiadau cau.**

Adran dau – diben y Cynllun Lle Arbennig

Canolbwynt daearyddol

Mae'r Cynllun Lle Arbennig yn gynllun peilot. Yng Nghymru, ein nod yw cefnogi ymgeiswyr llwyddiannus o amrywiaeth o leoedd i gymryd rhan yn y cynllun.

Rydym yn eich gwahodd i feddwl yn greadigol ynglŷn â'r ardaloedd y gellwch eu gwasanaethu. Gall y rhain fod ar draws mwy nag un ardal gyngor, neu'r berthynas rhwng ardal drefol ac ardaloedd gwledig cyfagos. Nid oes rhaid i'r ffiniau fod yn gyfagos nac yn weinyddol. Bydd angen i chi bennu'r raddfa a'r ffiniau daearyddol ar gyfer y 'lle' ble bydd eich prosiect yn cael ei gynnal. Dylech gyflwyno dadl o fewn eich cais o ran sut y mae'r ardal ddaearyddol a ddewiswyd gennych yn berthnasol ac yn ystyrlon yng nghyd-destun amcanion y Cynllun Lle Arbennig.

Dylai maint lle gael ei ystyried er mwyn sicrhau bod digonedd o adnoddau ar gael ac y gall y prosiect greu digon o effaith. Gallai lleoliad fod yn:

- Consortiwm o ardaloedd awdurdod lleol
- Ardal awdurdod lleol unigol
- Dinas neu dref a'i chefnwlad
- Casgliad o drefi / pentrefi gwledig
- Parc cenedlaethol neu ardal ddynodedig arall, e.e. tirwedd ddynodedig, Safle Treftadaeth y Byd neu ardal gadwraeth
- Wardiau o un gymdogaeth neu gymdogaethau gwahanol

Adran tri – cymhwysedd

Darllenwch y gofynion cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Lle Arbennig yn ofalus. Os nad ydych yn bodloni'r gofynion hyn, ni fyddwn yn gallu ystyried eich cais am arian.

Pwy all wneud cais?

Partneriaethau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Cymdeithasau tai
- Cynghorau tref a chymuned
- Awdurdodau lleol
- Amgueddfeydd a llyfrgelloedd
- Sefydliadau amgylchedd hanesyddol a threftadaeth naturiol
- Sefydliadau celfyddydol
- Grwpiau cymunedol / gwirfoddol
- Mentrau cymdeithasol
- Asiantaethau strategol cenedlaethol eraill
- Sefydliadau eraill y sector cyhoeddus
- Sefydliadau cyrchfan
- Sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch
- Byrddau iechyd rhanbarthol y GIG
- Ardaloedd Menter Fusnes
- Busnesau masnachol

Bydd angen i un o'r sefydliadau dielw yn y bartneriaeth gael ei enwebu fel y partner arweiniol.

Rydym yn croesawu arweiniad gan sefydliadau y tu allan i'r sectorau treftadaeth a diwylliannol, ond rydym yn disgwyl i o leiaf un sefydliad treftadaeth neu ddiwylliannol fod yn rhan o'r bartneriaeth, a byddwn yn gofyn am dystiolaeth i ddangos bod y bartneriaeth yn cynnwys yr ystod lawn o ddiddordebau treftadaeth a diwylliannol mewn ffordd ystyrlon.

Adran tri – cymhwysedd

Pwy sy'n methu gwneud cais?

Unigolion; sefydliadau unigol; partneriaethau a arweinir gan sefydliadau er elw/preifat neu gwmnïau

Pa fath o weithgaredd nad oes modd ei ariannu?

- Unrhyw weithgaredd y tu allan i Gymru
- Gweithgareddau pan mai'r rhai fydd yn elwa yn bennaf y tu allan i'r 'lle' a ddiffinnir y gwneir cais i gael arian amdano
- Prosiectau sy'n bwriadu gweithredu ar raddfa genedlaethol
- Gweithgareddau (gan gynnwys prynu nwyddau neu wasanaethau) neu unrhyw ran o'r prosiectau sydd eisoes wedi dechrau, wedi'u prynu, wedi'u harchebu, neu wedi'u contractio cyn i ni wneud penderfyniad ynglŷn â'ch cais. Mae hyn oherwydd nad ydym yn gallu ariannu gweithgareddau sydd eisoes wedi digwydd
- Costau sydd eisoes yn cael eu talu gan incwm arall, gan gynnwys eich arian chi neu unrhyw arian arall
- Gwaith cyfalaf ar raddfa fawr i adeiladau, lleoliadau diwylliannol, a mathau eraill o asedau treftadaeth neu ddiwylliannol. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd ariannu eraill ar gael i brosiectau nad ydynt yn flaenoriaeth ar gyfer arian Lle Arbennig – cysylltwch â Chronfa Dreftadaeth y Loteri i gael rhagor o wybodaeth.

Adran tri – cymhwysedd

Cytundebau partneriaeth

Mae angen i un sefydliad weithredu fel sefydliad arweiniol a chyflwyno'r cais. Mae'n rhaid i'r holl bartneriaid ddangos ymrwymiad cadarn i weithio ar y cyd trwy gytundeb partneriaeth neu Femorandwm o Ddealltwriaeth. Os byddwn yn penderfynu ariannu eich prosiect, byddwn yn ymrwymo i gytundeb grant sy'n orfodol mewn cyfraith gyda'r sefydliad arweiniol. Mae'n rhaid i'r sefydliad hwn dderbyn telerau ac amodau ein grant, a nhw yn unig fydd yn atebol i ni o ran yr holl wybodaeth fonitro, sut y mae'r holl arian yn cael ei wario, ac ar gyfer sicrhau bod y prosiect yn llwyddiannus ac yn cael ei gyflawni'n llawn.

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais ar gyfer y rhaglen hon, nid oes angen i'r bartneriaeth sefyll ar wahân fel sefydliad. Bydd arnom angen eich bod yn cyflwyno copiâu o'r dogfennau llywodraethu ar gyfer y sefydliad arweiniol yn unig.

Bydd partneriaethau llwyddiannus yn gallu dangos eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r gallu i gyflawni cynigion eu prosiect, gan gynnwys:

- Dealltwriaeth o'r bobl, y lle, y tir, y natur, ac asedau diwylliannol yr ardal lle y bydd y gweithgareddau Lle Arbennig yn cael eu cyflawni.
- Gwybodaeth a phrofiad o weithio ar draws y sectorau diwylliannol a threftadaeth, gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys pobl leol.
- Hanes blaenorol, o fewn yr aelodau partneriaeth, o gyflawni neu fod yn rhan o weithgaredd sy'n hyrwyddo treftadaeth a diwylliant wrth greu lleoedd, yn enwedig yn yr ardal lle bydd gweithgareddau'r prosiect yn cael eu cynnal.
- Hanes blaenorol o weithio ar y cyd a datblygu partneriaethau i gyflawni nodau cyffredin ar draws y sectorau diwylliannol a threftadaeth.
- Gweledigaeth glir o ran y gwerth a fydd yn cael ei ychwanegu at y lle o ganlyniad i'r gweithgaredd y gwneir cais am gymorth amdano, sut y bydd yn cyfrannu at y lle yn y tair blynedd nesaf a thu hwnt, a pha randdeiliaid, partneriaid neu sefydliadau y bydd rhaid iddynt gymryd rhan ynddo er mwyn ei gyflawni.
- Hanes blaenorol y gellir ei ddatblygu ymhellach yn sylweddol, neu gynlluniau cadarn ac uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, ar gyfer partneriaethau gyda sefydliadau y tu hwnt i'r sectorau diwylliannol a threftadaeth – gydag arwydd clir o'r ymrwymiad presennol neu debygol gan y partneriaid hynny i sicrhau bod treftadaeth a diwylliant yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer yr ardal leol yn y dyfodol.

Adran tri – cymhwysedd

Cytundebau partneriaeth

- Pennir y partneriaid, y rhanddeiliaid a'r sefydliadau i raddau helaeth yn ôl yr effaith ddiwylliannol, economaidd neu gymdeithasol benodol y'i rhagwelir. Er enghraifft, os mai ymgorffori treftadaeth a diwylliant mewn cynlluniau ar gyfer twf economaidd lleol yw'r gweithgaredd, yna byddem yn disgwyl i'r cais amlinellu sut y bydd yr awdurdod lleol, y sectorau addysg uwch ac addysg bellach, a sefydliadau cyrchfan yn cymryd rhan yn y gwaith.
- Ymrwymiad i amrywiaeth a chydraddoldeb.
- Systemau cadarn ar gyfer rheoli prosiect, rheolaeth ariannol, rheoli newid ac adrodd.

Adran pedwar – yr hyn y byddwn yn ei ariannu

Rhaglen sy'n seiliedig ar weithgareddau yw hon, ac ni fyddwn yn ariannu unrhyw waith cyfalaf ar raddfa fawr, e.e. gwaith adnewyddu adeiladau, cadwraeth cynefinoedd neu ailosod oriel. Gall rhywfaint o wariant cyfalaf ar raddfa fach gael ei ystyried ar gyfer cymorth yn unig os yw'n angenrheidiol ar gyfer cyflenwi gweithgareddau penodol, e.e. creu gofodau at ddibenion yn y cyfamser neu godi dros dro. Un o'r canlyniadau allweddol o'r prosiectau a gefnogir gennym, bydd cynhyrchu strategaeth dreftadaeth ar gyfer eich lleoliad. Byddwn hefyd yn disgwyl i ariannu rhywun i weithredu fel cydgysylltydd i hwyluso gwaith partneriaeth agos rhwng sefydliadau a gweithgareddau ar draws ardal y prosiect.

Yn Lloegr, bydd 16 ardal y cynllun peilot bellach yn gweithredu amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys:

- archwilio ffyrdd newydd i gynnwys y celfyddydau a threftadaeth fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau addysg neu iechyd lleol;
- ymchwilio i'r cyfraniad a wneir gan y celfyddydau a threftadaeth i economïau lleol;
- arian ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y celfyddydau a threftadaeth er mwyn adeiladu rhwydweithiau a chynyddu eu sgiliau;
- archwilio a threialu ffyrdd newydd o ariannu sefydliadau diwylliannol;
- annog y defnydd o bwerau presennol sy'n caniatáu i gymunedau gefnogi eu diwylliant lleol, megis polisi Hawl y Gymuned i Wneud Cais neu restru tirnodau lleol fel Asedau o Werth Cymdeithasol; a
- datblygu strategaethau lleol sy'n gwneud y gorau o'r manteision cymunedol y gall celfyddydau a threftadaeth leol eu cyflawni.

Rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r cynlluniau a ariennir gennym yn cyflawni gweithgareddau sy'n dod o dan y pedwar categori eang canlynol:

Siarad â phobl

- Trafodaethau sy'n seiliedig yn y gymuned gan ddefnyddio tystiolaeth ynglŷn â chyfleoedd presennol i ymgysylltu â threftadaeth a diwylliant a'u heffaith, e.e. defnyddio Cronfa Dreftadaeth y Loteri/Mynegai Treftadaeth y Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach i siarad am gryfderau, gwendidau a chyfleoedd asedau treftadaeth a gweithgareddau. Gallai'r rhain gael eu cynnal ar bob graddfa: awdurdod lleol, dinas, tref, neu bentref.
- Cynnal cyfres o ddiwyddiadau sy'n adeiladu neu'n cefnogi rhwydweithiau lleol newydd sy'n torri ar draws rhwystrau sectorau a sefydliadau – er enghraifft, rhwng unrhyw rai neu'r holl sefydliadau treftadaeth, iechyd, addysg, dinesig a chymunedol, yn ogystal ag awdurdodau lleol a grwpiau datblygu economaidd a busnes.
- Helpu i wneud treftadaeth yn garreg sylfaen ar gyfer strategaeth lle tymor hir trwy gynnal trafodaethau ymhlith pwerau lleol sy'n llunio llefydd: diwydiannau creadigol, mentrwyd dinesig ac arloeswyr cymdeithasol.

Adran pedwar – yr hyn y byddwn yn ei ariannu

Archwilio syniadau newydd

- Archwilio rôl treftadaeth yn yr economi leol – nid yn unig twristiaeth ond busnesau a diwydiannau lle y gallai'r cryfderau traddodiadol ddal i fod â'r potensial i fodloni'r galw lleol neu'r galw o ran allforion, a chreu partneriaethau gyda phrifysgolion pan fo hynny'n briodol.
- Archwilio'r rhyngberthynas rhwng canolfannau trefol a'r cefn gwlad sydd yn eu hamgylchynu, gan gynnwys er enghraifft twristiaeth, swyddogaeth tirweddau wrth amddiffyn rhag llifogydd, ansawdd dŵr, ynni a chynhyrchu bwyd, yn ogystal â gweithgareddau hamdden a hunaniaeth ddiwylliannol.
- Ymchwilio i'r berthynas rhwng cynhyrchiant diwylliannol, a'r defnydd ohono, gan nodi cyfleoedd i ecsbloetio a goresgyn rhwystrau i hyn.
- Archwilio i'r posibilrwydd ar gyfer modelau llywodraethu a gweithredu newydd o fewn y sector treftadaeth, a cheisio rhedeg cynlluniau peilot byr i dreialu'r rhain.
- Comisiynu artistiaid, cerflunwyr, ysgrifenyddwyr ac animeiddwyr i weithio gyda chymunedau lleol i'w helpu i ddiffinio eu huchelgeisiau a'u gweledigaeth, neu i ysgogi newid.
- Gweithio gydag amgueddfeydd a llyfrgelloedd er mwyn ymestyn cyrhaeddiad y bartneriaeth o fewn cymunedau. Er enghraifft, ystyried mynd i'r afael â'r materion a nodwyd drwy fenter [Ein Hamgueddfa](#) Sefydliad Paul Hamlyn.
- Rhedeg cystadlaethau cyhoeddus er mwyn dyfeisio syniadau newydd ynglŷn â sut i ddefnyddio a dathlu treftadaeth leol ac asedau diwylliannol mewn ffyrdd gwahanol.
- Archwilio sut i gynnwys mwy ynglŷn â threftadaeth a diwylliant fel rhan o'r ddarpariaeth addysgol leol, ar bob lefel.
- Gweithio gyda phrifysgolion i archwilio sut y gellir gwneud gwell defnydd o dreftadaeth a diwylliant er mwyn rhoi sylw i flaenoriaethau cymdeithasol ac economaidd.
- Gweithio gyda sefydliadau natur i archwilio a sefydlu'r man cychwyn ar gyfer Cyfalaf Naturiol a photensial lleoliad, ac yn enwedig ei gyfraniad at iechyd a llesiant pobl.

Creu dulliau i wireddu'r newid sylweddol

- Galluogi sefydliadau treftadaeth amrywiol i weithio gyda chomisiynwyr wrth gyd-gynhyrchu fframweithiau ar gyfer canlyniadau cymdeithasol.
- Creu ffyrdd newydd o gydnabod diwylliant lleol megis llwybrau trefi neu gatalogau digidol am fannau o ddiddordeb ardal.
- Cynnwys y cyhoedd wrth gyfrannu at gofnodion/catalogau treftadaeth leol.
- Cynnwys data treftadaeth fel rhan o blatfformau data agored lleol.
- Integreiddio treftadaeth yn well gyda marchnata a brandio er mwyn denu twristiaeth neu fuddsoddiad.

Adran pedwar – yr hyn y byddwn yn ei ariannu

Adeiladu capasiti

- Creu cyfleoedd i bobl ddarganfod mwy ynglŷn â threftadaeth leol a chyfrannu syniadau at brosiectau treftadaeth newydd.
- Rhoi cyllid i actifyddion treftadaeth unigol i adeiladu eu rhwydweithiau personol a'u sgiliau.
- Archwilio opsiynau ar gyfer trosglwyddo asedau treftadaeth i berchnogaeth gymunedol.
- Archwilio sefydliadau treftadaeth a diwylliannol lleol ar gyfer sgiliau, gan gynnwys cyfathrebu digidol ac ymgysylltiad cymunedol, a chwilio am bobl leol sy'n meddu ar y sgiliau hynny; neu ychwanegu cynrychiolwyr preswylwyr lleol at grwpiau llywio prosiectau a byrddau sefydliadau treftadaeth a diwylliant.
- Datblygu partneriaethau rhanbarthol, ledled Cymru, ar draws y DU, neu ryngwladol.
- Adeiladu partneriaethau sy'n denu buddsoddiad gan gyllidwyr cyhoeddus eraill.

Adnoddau Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach wedi bod yn cynnal ymchwil i'r cysylltiadau rhwng treftadaeth, hunaniaeth a lleoliad. Mae llawer o ganlyniadau'r gwaith hwn ar gael eisoes. Gellir dod o hyd i'r canlynol ar dudalen ymchwil y wefan a bydd yn ddefnyddiol ar gyfer ymgeiswyr sydd am ddatblygu eu cynlluniau:

Gallai'r digwyddiadau a'r gweithgareddau hyn ddefnyddio adeiladau treftadaeth a diwylliannol neu ganolfannau cymunedol/ymwelwyr drwy eu hagor ar gyfer arddangosfeydd a gweithgareddau dros dro. Ond gallent gael eu cynnal hefyd mewn canolfannau siopa, caffis neu farrau, canolfannau chwaraeon neu stadia – lle bynnag y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.

Dylai eich cynlluniau esbonio hefyd sut y byddwch yn cynnwys ac yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn gweithio gyda chyfranogwyr yn y Cynllun Lle Arbennig i gofnodi'r dysgu sy'n dod i'r amlwg a byddwn yn disgwyl i chi weithio gyda ni er mwyn rhannu hyn. Byddwn yn trafod hyn gyda'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

- Mae'r Mynegai Treftadaeth yn ddull allweddol i leoliadau ei ddefnyddio wrth ddatblygu ceisiadau Lle Arbennig ac yn fan cychwyn ar gyfer gweithgareddau prosiect a ariennir drwy'r rhaglen.
- Mae 30 blog ar [wefan ymchwil Treftadaeth, Hunaniaeth a Lleoedd y Gymdeithas Frenhinol](#) er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach sy'n cynnig syniadau a disgrifiadau o weithgareddau.

Adran pump – y gwahaniaeth rydym yn dymuno ei wneud

Rydym yn deall bod pob lle yn wahanol; mae cyd-destun, cymeriad a blas lleol wrth wraidd y Cynllun Lle Arbennig. Rydym am gefnogi prosiectau sy'n ymateb i'r anghenion a'r dymuniadau unigol hyn, ac sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywyd yn yr ardal leol.

Ond er mwyn mesur effaith ein buddsoddiad, mae'n rhaid i bob prosiect a ariennir gennym ddychwelyd rhywbeth. Byddwn yn anelu at sicrhau hyn drwy ofyn i chi a'ch prosiect gyflawni'r canlyniadau isod yr ydym o'r farn eu bod yn nodweddiadol o'r ffordd y mae treftadaeth a diwylliant yn creu Lle Gwych. **Nodwch na fyddwn yn disgwyl i chi roi sylw cyfartal i'r holl ganlyniadau o ran y gweithgareddau arfaethedig, nac wrth ddyrannu'r arian pan fyddwch yn cyflawni'r gweithgareddau hyn.**

Dylai canlyniadau arfaethedig eich cynllun ddangos sut y byddwch yn eu cyflawni. Bydd ein gwerthusiad o'r rhaglen a chynlluniau unigol yn adolygu llwyddiant pob cynllun o ran y canlyniadau hyn.

O ganlyniad i'n buddsoddiad ni, bydd sefydliadau treftadaeth a diwylliannol wedi adeiladu partneriaethau cynaliadwy gyda sectorau, asiantaethau a sefydliadau eraill yn yr ardal leol, a bydd treftadaeth a diwylliant yn cael eu hadlewyrchu'n llawn mewn cynlluniau a strategaethau lleol

Er mwyn cyflawni canlyniadau'r rhaglen hon, ni fyddwch ond yn gwneud gwahaniaeth i'ch ardal leol, ond byddwch hefyd yn sefydlu'r partneriaethau angenrheidiol y tu hwnt i'r sectorau treftadaeth a diwylliant yn y tymor hir, ac yn gweld rôl glir ar gyfer treftadaeth a diwylliant yn cael ei hadlewyrchu mewn cynlluniau a strategaethau lleol. Bydd angen i ni weld tystiolaeth i ddangos sut mae treftadaeth a diwylliant yn ymwneud â'r cynlluniau a strategaethau lleol allweddol sy'n berthnasol i'ch gweithgaredd, a sut y bydd ymrwymiad partneriaid yn cael ei ddiogelu a'i gynnal.

Gyda'n buddsoddiad ni, bydd sefydliadau treftadaeth a diwylliannol a sefydliadau lleol eraill yn fwy cydnerth

Bydd sefydliadau treftadaeth a diwylliannol, ochr yn ochr â'r rheiny o sectorau perthynol, yn cynyddu eu gallu i wynebu heriau ac addasu i sefyllfaoedd sy'n newid i roi dyfodol sicr iddynt. Byddant yn cyflawni'r cydnerthedd gwell hwn trwy drefniadau llywodraethu cryfach, a rhagor o gyfranogiad lleol; sgiliau rheolwyr a staff gwell; ffynonellau newydd o arbenigedd a chyngor; a thrwy waith partner er mwyn rhannu gwasanaethau, staff ac adnoddau.

Gyda'n buddsoddiad ni, bydd anghydraddoldeb yn cael sylw a bydd pawb yn cael y cyfle i brofi a chael eu hysbrydoli gan dreftadaeth a diwylliant

Bydd mwy o bobl, yn enwedig pobl ifanc, yn ymgysylltu â, yn profi, ac yn cael eu hysbrydoli gan y dreftadaeth a'r diwylliant o'u cwmpas. Bydd cynulleidfaoedd yn fwy amrywiol nac yr oeddent cyn eich prosiect. Bydd newidiadau wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'ch prosiect, yn arbennig o ganlyniad i'ch gwaith datblygu cynulleidfa ac ymgynghori â'r gymuned, drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y bobl sy'n ymgysylltu â'ch

Adran pump – y gwahaniaeth rydym yn dymuno ei wneud

diwylliant – a'r rhai nad ydynt – cyn, yn ystod, ac ar ôl eich prosiect.

Gyda'n buddsoddiad ni, bydd eich ardal/cymuned leol yn profi twf cynhwysol, a fydd yn mynd i'r afael â thlodi

Byddwch yn gallu dangos eich bod wedi cyfrannu at dwf yn eich economi leoli, fel bod pobl o bob rhan o'r gymuned yn rhan o'r newid hwn, a hefyd yn gallu elwa ar economi gryfach. Efallai bydd eich prosiect yn hybu twristiaeth neu'r diwydiannau creadigol, neu'n gweithredu fel atyniad ar gyfer buddsoddiad mewnol. Byddwch hefyd yn gallu dangos bod busnesau lleol a mentrau cymunedol a chymdeithasol wedi elwa a/neu fod busnesau a mentrau cymunedol a chymdeithasol newydd wedi cael eu sefydlu. Cefnogir hyn gan gyflogaeth gynaliadwy a chynhyrchiol, marchnad swyddi deg a chynhwysol, a chydlynid rhanbarthol. Bydd hyn oherwydd eich bod wedi gwario eich grant yn lleol, neu gan i chi annog rhagor o ymweliadau twristiaeth, hyrwyddo cyflog teg a chyfleoedd i ddatblygu, helpu i fasnacheiddio cynhyrchion, cefnogi busnesau newydd neu fentrau bach a chanolig sy'n tyfu, neu oherwydd eich bod wedi creu safleoedd newydd i fusnesau. Byddwch yn gallu dangos hefyd eich bod wedi cynnwys partneriaid allweddol.

Gyda'n buddsoddiad ni, bydd eich ardal/cymuned leol yn lle gwell i fyw, i weithio neu i ymweld ag ef

Bydd gan drigolion lleol ansawdd bywyd gwell, a bydd yr ardal yn fwy prydferth yn gyffredinol. O ganlyniad i gynyddu cyfleoedd pobl leol i ymgysylltu â'r dreftadaeth a'r diwylliant sydd o'u cwmpas, bydd trigolion yn dweud eu bod yn ymfalchïo'n fwy yn yr ardal leol a/neu yn cael ymdeimlad cryfach o berthyn. Bydd gan bobl ymdeimlad o lesiant gwell a bydd anghydraddoldebau yn cael eu trin. Byddwch yn gallu dangos bod y partneriaethau newydd yr ydych yn eu ffurfio a'r gweithgareddau a wneir gennych yn cael effaith glir ar y gymdeithas – p'un a fydd hynny ar iechyd a llesiant, cydlynid cymunedol, canlyniadau addysgol, neu flaenoriaeth polisi lleol arall. Byddwch yn gallu cynnwys partneriaid allweddol megis byrddau iechyd a gofal cymdeithasol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, awdurdodau lleol, y sector cymunedol a gwirfoddol, ac eraill fel y bo'n briodol.

Adran chwech – sut i wneud cais

Siarad â ni ynglŷn â'ch cais – y Ffurflen Mynegi Diddordeb

Unwaith i chi ddarllen y canllawiau a dechrau meddwl am eich cais, mae'n rhaid i chi siarad â Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Er mwyn cysylltu, ewch i wefan [CDL Cymru](#).

Mae'n ofynnol i'r holl ymgeiswyr dichonol gyflwyno Ffurflen Mynegi Diddordeb, sydd ar gael ar wefan Cynllun Lle Arbennig Cymru.

Dim ond gwybodaeth amlinellol sydd ei hangen arnom ar y cam hwn, ond fe ddylech gynnwys y canlynol:

- Y lle ble rydych yn gobeithio lleoli eich prosiect.
- Y prif flaenoriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd fel yr amlinellir gan randdeiliaid ac arweinwyr lleol ar gyfer y lle hwnnw.
- Yr ystod o weithgarwch rydych yn ceisio ei chyflawni i gyfrannu at y blaenoriaethau hyn.
- Sut bydd eich gweithgarwch yn ceisio ymgorffori treftadaeth a diwylliant yn y weledigaeth a'r cynlluniau ar gyfer y lleoliad lle caiff eich prosiect ei gyflawni, y partneriaid byddwch yn ceisio gweithio gyda nhw a dwyn dylanwad arnynt, a'r graddau y maent wedi ymroi i'ch cynlluniau chi.

- Aelodaeth o'ch partneriaeth a sut bydd partneriaid/rhanddeiliaid treftadaeth a diwyllianol eraill yn cael eu cynnwys yn y gwaith o arwain a chyflenwi'r prosiect.
- Cynlluniau ar gyfer sut y byddwch yn cyllido ac yn rheoli eich prosiect Cynllun Lle Arbennig.
- Pwy o Gronfa Dreftadaeth y Loteri yr ydych wedi trafod gyda nhw ynglŷn â'ch prosiect.

Unwaith y bydd y dyddiad cau o **14 Awst 2017** ar gyfer ffurflenni Mynegi Diddordeb y Cynllun Lle Arbennig wedi mynd heibio, byddwn yn defnyddio dull sifftio i ganfod y prosiectau hynny rydym yn credu sydd â'r gallu i gyflenwi mewn perthynas â'r **pum canlyniad ar gyfer y Cynllun Lle Arbennig (gweler tudalennau 17-18)**.

Os ydym yn credu bod potensial i'ch prosiect, byddwn yn eich gwahodd i wneud cais llawn, ac yn anfon manylion llawn i chi ynglŷn â sut i gofrestru ar ein porth ar-lein ar gyfer y rhaglen, sut i lenwi'r ffurflen gais, a'r wybodaeth y bydd angen i ni ei gweld.

Adran chwech – sut i wneud cais

Cyflwyno ffurflen gais lawn

Bydd ffurflen gais y Cynllun Lle Arbennig yn cynnwys uchafswm o 3,250 o eiriau, a rennir mewn tair adran:

- Bodloni'r briff – potensial y prosiect i gryfhau sefydliadau treftadaeth a diwylliannol o fewn eich lle, gan arwain at swyddogaeth fwy amlwg i dreftadaeth a diwylliant o ran bodloni blaenoriaethau cymdeithasol ac economaidd lleol a chyflawni pum canlyniad y rhaglen (1,500 o eiriau)
- Rheoli'r prosiect (1,000 o eiriau)
- Dichonoldeb ariannol (750 o eiriau).

Nid oes angen i chi ddefnyddio'r cyfrifiad geiriau llawn os nad ydych yn credu ei fod yn angenrheidiol.

Defnyddiwch y **meini prawf/awgrymiadau yn Adran saith** y canllawiau hyn i helpu i strwythuro eich cynnig.

Bydd y ffurflen gais ar-lein ar gael ar 8 Medi 2017. Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau cyn canol dydd ar 7 Rhagfyr 2017.

Ni fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn yn cael eu hystyried. Ni fyddwn yn gallu darllen na rhoi sylwadau ysgrifenedig ar geisiadau drafft. Eich cyfrifoldeb chi yw datblygu ac ysgrifennu'r cais, gan gynnwys yr holl wybodaeth sydd yn berthnasol yn eich barn chi. Ni allwn warantu llwyddiant i unrhyw ymgeisydd.

Adran chwech – sut i wneud cais

Atodiadau

Rhaid i chi uwchlwytho'r atodiadau gorfodol canlynol gyda'ch cais llawn. Y cyfyngiad cyfunol ar faint y ffeiliau ar gyfer yr holl atodiadau gyda'i gilydd yw 10 megabeit a 10 eitem.

Cytundeb partneriaeth	Dylai'r cytundeb partneriaeth restru'r holl sefydliadau, gan gynnwys manylion o ran eu swyddogaeth wrth gyflawni'r prosiect pilot a sut y caiff ei reoli. Dylai hefyd gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer y prif unigolyn ym mhob sefydliad.
Cyllideb fanwl	Cyllideb fanwl ar gyfer y prosiect Cynllun Lle Arbennig, yn dangos yr incwm a gwariant arfaethedig (fel dalen Excel neu debyg).
Cynllun gwaith	Cynllun gwaith ar gyfer y prosiect arfaethedig, gan gynnwys y cerrig milltir a'r dyddiadau adolygu allweddol.
Datganiadau ariannol	Datganiadau ariannol ar gyfer y sefydliad sy'n arwain eich partneriaeth yn dangos y flwyddyn ariannol flaenorol, wedi eu paratoi i'r safon gyfreithiol berthnasol.
Cyfrifon rheoli	Y cyfrifon rheoli diweddaraf ar gyfer eich sefydliad arweiniol.
Dogfennau llywodraethu	Y dogfennau llywodraethu ar gyfer eich sefydliad arweiniol. Nid yw'n berthnasol os mai awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus yw'r prif ymgeisydd.

Cewch lanlwytho'r atodiadau opsiynol canlynol hefyd

Hyd at dri atodiad perthnasol arall, e.e. cynllun o'r ardal yr ydych yn bwriadu rhoi sylw iddi yn eich prosiect neu lythyrau o gefnogaeth gan grwpiau cymunedol lleol. Mae'n rhaid i bob un o'r rhain fod yn uchafswm o bum tudalen o hyd.

Adran chwech – sut i wneud cais

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o'ch ffurflen gais ac unrhyw atodiadau i benderfynu a yw eich cais yn gymwys ac a fyddwn yn cynnig arian er mwyn i chi gyflawni eich Cynllun Lle Arbennig. Os nad yw eich

cais yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen arnom yn y fformat yr ydym yn gofyn amdano, efallai na fyddwn yn gallu ei ystyried.

Cymorth gyda'ch cais

Rydym yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn dymuno gwneud y broses o ymgeisio ar gyfer y Cynllun Lle Arbennig yn hygyrch i bawb. Os ydych chi cael unrhyw drafferthion gyda'r broses o

ymgeisio, yn dymuno cael cymorth i wneud cais, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach heb eu hateb uchod, mae croeso i chi gysylltu â thîm Cymru.

Ffôn: 029 2034 3413

E-bost: cymru@hlf.org.uk

Ar ôl i chi gyflwyno eich cais Cynllun Lle Arbennig

Byddwch yn derbyn e-bost i gadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais. Byddwn yn anfon hwn at y cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gennych i anfon y cais.

Byddwn yn cynnal gwiriad cymhwysedd ar ôl i'ch cais gael ei gyflwyno. Os nad yw eich cais yn

gymwys, golyga hyn nad ydym yn gallu ei brosesu ymhellach, ac ni fyddwn yn ystyried ei ariannu.

Os nad yw eich cais yn gymwys, byddwn yn ysgrifennu i roi gwybod i chi, ac esbonio ein penderfyniad.

Adran saith – sut byddwn yn gwneud ein penderfyniad

Byddwn yn gwirio eich cais i sicrhau eich bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani, ac yn ystyried yr adborth a roddwyd i'ch Mynegiant o Ddiddordeb. Byddwn wedyn yn gwneud ein penderfyniad ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd yn eich cais, unrhyw wybodaeth ychwanegol yr ydym yn gofyn amdani, a hefyd, pan fo'n berthnasol, data a gwybodaeth o wefannau'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau sy'n ymwneud â chyfansoddiad a datganiadau ariannol eich sefydliad arweiniol o'r ddwy flynedd ddiwethaf.

Byddwn yn asesu pob cais yn ôl y meini prawf canlynol, gan ddefnyddio'r awgrymiadau asesu isod:

Meini prawf

Bodloni'r briff - potensial y prosiect i gryfhau sefydliadau treftadaeth a diwylliannol o fewn y lle, gan arwain at swyddogaeth fwy amlwg i dreftadaeth a diwylliant o ran bodloni blaenoriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd lleol (nifer o eiriau: hyd at **1,500** o eiriau):

- Dealltwriaeth o'r bobl, y lle, ac asedau treftadaeth a diwylliannol yr ardal lle y bydd y gweithgareddau Lle Arbennig arfaethedig yn cael eu cyflawni
- Dealltwriaeth o'r heriau allweddol sy'n wynebu ardal y prosiect a ddewisir a'r cyfleoedd a nodwyd i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys tloedi ac anghydraddoldeb
- Gwybodaeth am fentrau eraill yn ardal y prosiect y gellid adeiladu arnynt drwy gydol y prosiect
- Gwybodaeth a phrofiad o weithio ar draws y sectorau treftadaeth a diwylliant gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid (gan gynnwys pobl leol)
- Hanes blaenorol, o fewn yr aelodau partneriaeth, o gyflawni neu fod yn rhan o weithgaredd sy'n hyrwyddo treftadaeth, diwylliant, a chreu lleoedd, yn enwedig yn yr ardal lle bydd gweithgareddau'r prosiect yn cael eu cynnal
- Hanes blaenorol o weithio ar y cyd a datblygu partneriaethau i gyflawni nodau cyffredin, o fewn y sectorau treftadaeth a diwylliant, a thu hwnt
- Eich cynlluniau i gyflawni gweithgarwch a'r graddau y bydd hwn yn cyflawni pum canlyniad y Cynllun Lle Arbennig yng Nghymru
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun yr ydych yn gweithredu o fewn iddo'n lleol, a sut y byddwch yn sicrhau ac yn cynnal partneriaethau priodol a fydd yn ymgorffori treftadaeth a diwylliant mewn cynlluniau a strategaethau lleol

Adran saith – sut byddwn yn gwneud ein penderfyniad

Rheoli'r prosiect (nifer o eiriau: hyd at 1,000 o eiriau):

- Dangos eich gallu i gyflawni'r rhaglen arfaethedig ar draws y bartneriaeth
- Ansawdd ac ystod y bartneriaeth
- Arddangos y lefel bresennol o gyfraniad y sectorau treftadaeth a diwylliannol o ran ffurfio strategaethau ar gyfer llunio llefydd yn lleol
- Bod trefniadau llywodraethu addas ar waith a/neu ar y gweill, gan gynnwys sut y mae partneriaid yn cymryd rhan
- Dangos sut y bydd cydraddoldeb a hygyrchedd yn cael sylw

Dichonoldeb ariannol (nifer o eiriau: hyd at 750 o eiriau):

- Dichonoldeb ariannol yr ymgeisydd arweiniol, a'r prosiect
- Dangos priodoldeb y gyllideb arfaethedig
- Buddsoddiad ariannol neu gefnogaeth mewn nwyddau, yn ogystal â'r isafswm cyfraniad arian parod o 10%

Penderfynu

Unwaith y byddwn wedi asesu eich cais a bod argymhelliad wedi cael ei wneud o ran p'un a fydd yn cael ei ariannu neu beidio, byddwn yn gwneud ein penderfyniad. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn ystyried pa mor gryf oedd sgôr eich gweithgaredd yn erbyn ein meini prawf, a byddwn hefyd yn ystyried eich gweithgaredd ochr yn ochr â cheisiadau eraill ar y meini prawf cydbwysu canlynol:

- Lleoliad daearyddol
- Y graddau y mae prosiectau yn mynd i'r afael ag anghenion a nodwyd o fewn cymunedau sy'n profi anghydraddoldebau
- Y raddfa o ran cael cydbwysedd rhwng cynlluniau bach a mawr
- Y cydbwysedd ar draws mathau gwahanol o weithgaredd; y gwerth cymdeithasol, diwylliannol, ac economaidd a ddaw o ganlyniad i'r gweithgaredd; a ffurf ac aelodaeth y partneriaethau a fydd yn cyflenwi

- Cyfle i gydweithio ac ychwanegu gwerth at fentrau eraill mewn ardaloedd sydd â'r angen mwyaf
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth – e.e. amrywiaeth y rhai a fydd yn cyflawni'r gweithgaredd arfaethedig, estyniad arfaethedig y gweithgaredd o ran cyfranogwyr, a'r graddau y bydd y gweithgaredd arfaethedig yn gallu hyrwyddo cyfleoedd cyfartal

Defnyddir y meini prawf cydbwysedd hyn er mwyn sicrhau lledaeniad da ar gyfer prosiectau Cynllun Lle Arbennig – o ran daearyddiaeth a'r gweithgareddau/dull arfaethedig hefyd – ac er mwyn gwahaniaethu rhwng nifer o gynigion yr ystyrir bod pob un ohonynt yn gryf.

Byddwn yn ceisio rhoi gwybod i ymgeiswyr ynglŷn â'n penderfyniad erbyn **31 Mawrth 2018** fan bellaf.

Adran wyth – gwybodaeth arall ynglŷn â'ch cais

Cwynion

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd rydym wedi delio gyda'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â ni a byddwn yn trafod hyn ymhellach. Os ydych chi dal yn anfodlon, gallwch ofyn i ni am gopi o'n gweithdrefn gwynion. Ceir manylion fan hyn:

<https://cymraeg.hlf.org.uk/about-us/contact-us/customer-service>

Nodwch eich bod ond yn gallu cwyno os ydych yn credu nad ydym wedi dilyn ein gweithdrefnau cyhoeddiedig wrth asesu eich cais ar gyfer y Cynllun Lle Arbennig. Ni chewch apelio yn erbyn y penderfyniad.

Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data

Rydym yn ymrwymedig i fod yn agored am y ffordd byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth byddwch yn ei rhoi inni fel rhan o'ch cais. Rydym yn gweithio o fewn Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998.

Pan fyddwch yn cyflwyno'ch datganiad gyda'ch ffurflen gais, byddwch yn cadarnhau eich bod yn deall ein rhwymedigaethau o dan y deddfau hyn.

Derbyn grant

Os rhoddir grant i chi, bydd angen i chi:

- Gydymffurfio â thelerau'r grant.
- Cydnabod cymorth y Loteri Genedlaethol drwy ddefnyddio logo cydnabod grantion. Byddwn yn rhoi canllawiau ar hyn i chi ac rydym yn gallu darparu rhai deunyddiau cydnabod yn ddi-dâl.
- Rydych yn rhoi'r hawl inni ddefnyddio unrhyw ddelweddau rydych wedi'u rhoi i ni. Mae'n rhaid i chi gael yr holl ganiatadau sydd eu hangen cyn ichi eu defnyddio neu'u hanfon atom.

Os byddwch yn llwyddiannus gyda'ch cais, byddwn yn rhoi manylion ehangach i chi ynglŷn â'n dull o fonitro prosiectau, talu grantiau, prynu gwaith a gwasanaethau, a gwerthuso mewn nodyn canllawiau ar wahân.

**Cynllun Lle
Arbennig**

Cynllun Lle Arbennig
Heritage Lottery Fund
Tŷ James William
9 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BD

E-bost

cymru@hlf.org.uk